### Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

# Adolygiadau canolfan ac apeliadau

## TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch 2021

Mae disgyblion blwyddyn 11, 12 a 13 bellach wedi cwblhau darnau o waith / asesiadau fydd yn cyfrannu at bortffolio o dystiolaeth ar gyfer eu cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol neu Safon Uwch. Mae gwaith y disgyblion wedi cael ei safoni a'i gymedroli gan athrawon ac adrannau ar draws yr ysgol. Yn dilyn y broses yma o gymedroli a sicrhau ansawdd, fe fydd disgyblion yn derbyn eu graddau dros dro ar ddydd **Gwener, Mehefin 18fed ar safle'r ysgol.**

Yn sgîl cyhoeddiad y Gweinidog Addyg ym mis Ionawr eleni, os y bydd disgybl yn anhapus â'r radd derfynol, fe fydd hawl ganddynt wneud cais am adolygiad yn erbyn y radd a ddyfarnwyd dros dro gan yr ysgol. Fodd bynnag, ni ellir gwneud apêl ar y sail bod disgybl yn anghytuno gyda'r radd a bennir gan y ganolfan (ysgol) yn unig. Rhaid bod y disgybl yn gallu nodi'n glir pa ran yn benodol o'r dystiolaeth sy'n dangos bod y radd a ddyfarnwyd yn anghywir.

**Mae tri cham i'r broses o adolygu ac apelio:**

| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|
| Gall ymgeiswyr ofyn am gopi o'r cofnod gwneud penderfyniad a/neu ofyn am adolygiad gan yr ysgol o'r radd dros dro ar y sail bod camgymeriad / gwall wedi ei wneud wrth bennu gradd. Rhaid i ymgeiswyr roi rheswm pam eu bod yn credu bod camgymeriad wedi ei wneud. Gall graddau fynd fyny neu i lawr o ganlyniad. | Gall ymgeiswyr ofyn i'r ysgol apelio i CBAC ar eu rhan gan eu bod yn anhapus gyda dyfarniad yr ysgol. Rhaid i ymgeiswyr roi rheswm pam maen nhw'n credu bod yr ysgol wedi gwneud dyfarniad afresymol a/neu gamgymeriad gweithdrefnol. Gall graddau fynd fyny neu i lawr o ganlyniad. | Gall ymgeiswyr wneud cais i Gymwysterau Cymru am wasanaeth adolygu gweithdrefnau arholi (EPRS er mwyn adolygu a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau canlynol). |

Wrth gyflwyno cais am adolygiad neu apêl mae tri canlyniad posibl ar BOB cam yn y broses apelio:

- Mae eich gradd wreiddiol wedi'i chyfrifo yn cael ei **gostwng**, felly, gall eich gradd derfynol fod yn is na'r radd wreiddiol a gawsoch.
- Cadarnheir bod eich gradd wreiddiol wedi'i chyfrifo yn gywir, felly, **nid oes unrhyw newid** i'ch gradd.
- Codir eich gradd gyfrifedig wreiddiol, felly, gall eich gradd derfynol fod yn **uwch** na'r radd wreiddiol a gawsoch.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r adolygiad neu'r apêl, rhaid i chi roi eich caniatâd (gall hwn fod yn lofnod electronig, mewn llawysgrifen neu wedi'i deipio). Mae hyn yn dweud wrth bennaeth eich ysgol eich bod wedi deall beth allai'r canlyniad fod, ar unrhyw gam o'r broses apelio, a'ch bod yn rhoi eich caniatâd i'r adolygiad neu'r apêl i gael ei chyflwyno.

## CAM 1: Adolygiad gan y ganolfan

**CAM 1a:** Os yw dysgwyr o'r farn y gallai fod gwall wrth bennu eu gradd, dylent ofyn am y Cofnod Gwneud Penderfyniad cyn pen 48 awr ar ôl derbyn eu graddau dros dro drwy lenwi Ffurflen A.

Dylid cwblau **Ffurflen A** a danfon y ffurflen trwy e-bost at swyddfa@bromyrddin.org erbyn 3:30pm ar ddydd Mawrth, yr 22ain o Fehefin.

Ar y ffurflen dylid enwi'r cofnod penderfyniad y gofynnwyd amdano gan na weithredir dull cyffredinol o ymdrin â 'phob pwnc'. Bydd y cofnod gwneud penderfyniad y gofynnir amdano yn cael ei e-bostio o fewn amserlen resymol.

Yn dilyn hyn, os mae'r disgybl yn parhau o'r farn bod gwall ar y radd a benwyd gan yr ysgol, gall wneud cais am adolygiad gan yr ysgol (ganolfan) a symud ymlaen i gam 1b.

**CAM 1b:** Dylid gwneud cais am adolygiad o'r radd dros dro drwy gwblhau Ffurflen B gan ddarparu rhesymeg glir a diamwys i ategu'r rheswm dros y cais am adolygiad. Cofiwch, **ni fydd yr ysgol yn ail-farcio nac ail-asesu unrhyw dasg.**

Dylid cwblau **Ffurflen B** a danfon y ffurflen trwy e-bost at swyddfa@bromyrddin.org erbyn 3:30pm ar ddydd Mawrth y 29ain o Fehefin.

Fe fydd y ganolfan yn hysbysu'r dysgwyr am y canlyniad gan gyfeirio'r dysgwyr at broses apeliadau cam 2 CBAC a fydd yn weithredol ar ôl i'r dysgwyr dderbyn eu canlyniadau ym mis Awst.

## CAM 2: Apêl i CBAC

Gall ymgeiswyr ofyn i'r ysgol gyflwyno apêl cam 2 i CBAC os ydyw o'r farn bod gwall o hyd ar ôl canlyniad cam 1 – yr adolygiad canolfannau. Gellir cyflwyno apêl hefyd os yw'r dysgwr, ar ôl trafod â'r ganolfan, o'r farn bod CBAC wedi gwneud gwall. Er enghraifft, y ganolfan yn cadarnhau ei bod wedi cyflwyno gradd C ragarweiniol a CBAC wedi cyhoeddi gradd D.

Mae'n bwysig nodi bod dysgwyr yn ymwybodol, na ellir cyflwyno apêl Cam 2 ar sail dyfarniad academaidd afresymol **onibai bod adolygiad canolfan Cam 1 wedi'i gwblhau**.

Mae dysgwyr yn gyfrifol am amlinellu'r seiliau a'r rhesymau dros ofyn am yr apêl, ond **mae'n rhaid i'r ysgol gyflwyno'r apêl i CBAC.** Rhaid i'r ysgol wneud y dysgwyr yn ymwybodol y gall y radd fynd i fyny neu i lawr ar apêl. Dylid cwblhau **Ffurflen C** er mwyn apelio i CBAC.

Dylid cwblau **Ffurflen C** a danfon y ffurflen trwy e-bost at swyddfa@bromyrddin.org.

| | | |
|---|---|---|
| Ymgeiswyr Uwch Gyfrannol a Safon Uwch | – | rhwng Awst 10fed – Medi 9fed |
| Ymgeiswyr TGAU | – | rhwng Awst 24ain – Medi 21ain |

*Dim ond os yw'r radd ymhell y tu allan i ffiniau barn academaidd resymol ac na all y dystiolaeth gefnogi'r radd a ddyfarnwyd y gellir ystyried bod y radd yn afresymol. Er enghraifft, ni fydd penderfyniad i ddyfarnu gradd B yn afresymol pan fydd y sawl sy'n gwneud penderfyniad ar gyfer yr apêl o'r farn y byddai'r dystiolaeth yn cefnogi naill ai gradd A neu radd B. Byddai'r ddau yn rhesymol ac felly ni fyddai'r naill na'r llall yn afresymol. Byddai'r dyfarniad yn cael ei ystyried yn afresymol pe na allai unrhyw ganolfan arall yn yr un sefyllfa, wrth weithredu'n rhesymol, fod wedi dod i'r un dyfarniad. Dyna'r safon yr ydym yn disgwyl iddi gael ei chymhwyso gan CBAC wrth bennu adolygiadau ac nid ydym yn rhagweld y bydd nifer sylweddol o newidiadau gradd yng Ngham 2.*

## CAM 3: Apêl i Gymwysterau Cymru

Bydd y cam adolygu hwn yn ystyried a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.

Ni fydd Cymwysterau Cymru yn adolygu a yw'r ysgol wedi cydymffurfio â'i pholisïau neu ei gweithdrefnau ei hun neu'r rhai a bennwyd gan CBAC. Bydd CBAC yn cynnal y rhan honno o'r broses apelio yng Ngham 2.

Ni fydd Cymwysterau Cymru yn adolygu cywirdeb y penderfyniad graddio ac ni fyddant yn newid unrhyw raddau.

# FFURFLEN A:

## CAIS AM GOFNOD GWNEUD PENDERFYNIAD

| | |
|---|---|
| **Enw'r Ymgeisydd** | |
| **Rhif Arholiad** | |
| **Y cofnod sydd ei angen** | |

**Datganiad**

Rhoddaf ganiatâd i bennaeth fy Ysgol i ddechrau'r broses adolygiad o'r pwnc / pynciau uchod. Wrth roi fy nghaniatâd deallaf y gall y broses adolygiad arwain at godi gradd, disgyn y radd neu arwain at ddim newid yn y radd wreiddiol dros dro.

**Arwyddwyd:** **Dyddiad:**

## FFURFLEN B:

### CAIS AM ADOLYGIAD I'R GANOLFAN

# Cam 1
# Adolygiad canolfannau ac apeliadau Haf 2021

*(CBAC TGAU, UG a Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Gymdeithasol a Gofal Plant)*

| **Enw'r Ganolfan** | | **Rhif y Ganolfan** | |
|---|---|---|---|

| **Enw'r Ymgeisydd** | | **Rhif yr Ymgeisydd** | |
|---|---|---|---|

| **Teitl a lefel y cymhwyster** | |
|---|---|

| **Gradd ragarweiniol a gyhoeddwyd** | |
|---|---|

*ADRAN 1: CAIS AM ADOLYGIAD O RADD RAGARWEINIOL A BENNWYD GAN Y GANOLFAN*

| **Yn fyr ac yn glir, esboniwch pa wall rydych chi'n credu gafodd ei wneud wrth bennu eich gradd.** |
|---|
| Dylech chi gyfeirio at y wybodaeth yn eich cofnod gwneud penderfyniad y dysgwyr. Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gwall y credwch chi mae'r ganolfan wedi'i wneud wrth bennu eich gradd y dylech chi ei ddarparu. |

| **Yn fyr ac yn glir, esboniwch sut rydych chi'n credu bod y gwall hwn wedi effeithio ar eich gradd.** |
| --- |
| |
| **Datganiad**<br><br>Cadarnhaf fy mod yn gwneud cais i adolygu fy ngradd ragarweiniol a bennwyd gan y ganolfan ar gyfer y cymhwyster a nodir uchod.  Deallaf y gall fy ngradd fynd i lawr neu i fyny, neu aros yr un peth, o ganlyniad i'r adolygiad canolfannau.<br><br>Cadarnhaf fod y wybodaeth sydd wedi'i ddarparu yn gywir.<br><br>**Enw'r Ymgeisydd:**<br><br>**Llofnodwyd:**<br><br>**Dyddiad:** |

## FFURFLEN C:

# CAM 2
# CAIS AM APÊL I CBAC

*(TGAU, UG a Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Gymdeithasol a Gofal Plant)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Ganolfan** | | **Rhif y Ganolfan** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Ymgeisydd** | | **Rhif yr Ymgeisydd** | |

| | |
|---|---|
| **Teitl a lefel y cymhwyster** | |

| | |
|---|---|
| **Gradd ragarweiniol a gyhoeddwyd** | |

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n gwneud cais am apêl blaenoriaethol[1] | Ydw / Nac ydw |
| Os yw eich lle yn y brifysgol mewn perygl rhaid i chi nodi eich dangosydd personol UCAS[1] | |
| A oes Gradd/lle ar Brentisiaeth Fodern Uwch mewn perygl yn dibynnu ar ganlyniad yr apêl | Oes / Nac oes (os ydych chi'n ateb 'oes' rhowch fanylion a nodwch y dyddiad olaf y mae'r cynnig ar gael i chi). |

| **Rhesymau dros Apelio** | **Ticiwch** |
|---|---|
| Gwall gweinyddol gan y ganolfan | |
| Ni chafodd trefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig eu defnyddio na'u hystyried wrth bennu'r radd | |
| Ni ddilynodd y ganolfan ei pholisi/cynllun asesu'r ganolfan wrth bennu'r radd | |

[1] Mae apeliadau blaenoriaethol ar gael ar gyfer cymwysterau Safon Uwch a chymwysterau Lefel 3 eraill os yw lle'r dysgwr yn y brifysgol neu mewn addysg uwch yn dibynnu ar ganlyniad apêl. Peidiwch â gofyn am apêl flaenoriaethol os nad yw eich lle yn y brifysgol neu mewn addysg bellach yn dibynnu arni. Eich dangosydd personol UCAS yw'r cod 10 digid sydd wedi'i gynnwys ym mhob gohebiaeth oddi wrth UCAS.

| | |
|---|---|
| Roedd y farn wrth bennu'r radd yn afresymol | |
| Gwall CBAC – mae’r radd a gyhoeddwyd ar ddiwrnod y canlyniadau yn wahanol i’r radd ragarweiniol a gyhoeddwyd gan y ganolfan | |

| **Darparwch unrhyw wybodaeth ychwanegol nad ydych wedi’i chynnwys uchod ynghylch y gwall rydych chi’n credu wnaeth ddigwydd wrth bennu eich gradd.** |
|---|
| Nid oes rhaid i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Rhaid i unrhyw wybodaeth sydd wedi’i darparu uchod fod yn glir, yn gryno ac yn berthnasol. |

| **Darparwch unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd heb ei chynnwys uchod o ran sut rydych chi’n credu wnaeth y gwall effeithio ar eich gradd** |
|---|
| Nid oes rhaid i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Rhaid i unrhyw wybodaeth sydd wedi’i darparu uchod fod yn glir, yn gryno ac yn berthnasol. |

**Datganiad**

Cadarnhaf fy mod yn gwneud cais am apêl yn erbyn fy ngradd ar gyfer y cymhwyster a enwir uchod.

Deallaf y gall yr apêl arwain at fy ngradd yn cael ei ostwng, yn cael ei godi neu’n aros yr un peth.

Os ydw i'n gofyn am apêl flaenoriaethol, cadarnhaf fod fy lle yn y brifysgol neu mewn addysg uwch mewn perygl yn dibynnu ar ganlyniad yr apêl.

Cadarnhaf fod y wybodaeth sydd wedi’i ddarparu yn gywir.

**Enw'r Ymgeisydd:**

**Llofnodwyd:**

**Dyddiad:**